12.2000DHD1

**LC170**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Taliadau Cymunedol, Y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Gorfodi) (Llysoedd Ynadon) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae Deddf Cyfle i gael Cyfiawnder 1999 yn darparu ar gyfer:

(i) uno’r Fainc Ynadon Cyflogedig a’u hail-enwi’n Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)

(ii) trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol a oedd gynt yn faes arbennig clercod ustusiaid i brif weithredwyr ustusiaid.

O ganlyniad i hyn mae’r Rheoliadau presennol yn gwneud diwygiadau i offerynnau statudol penodol ynghylch y dreth gyngor ac ardrethu annomestig, i ddiweddaru’r cyfeiriadau yn yr offerynnau hynny at “ynad cyflogedig” a “clerc y llys” gan ddefnyddio’r terminoleg newydd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Mick Bates A.M.**

**Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau**

27 Chwefror 2001